Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Ionawr 2024

**I: Holl gleifion sydd wedi cofrestru gyda Phractis Meddygol Brynmawr sy'n byw yn y cyfeiriad hwn**

Annwyl glaf,

Mae ein cofnodion yn dangos eich bod wedi cofrestru gyda Phractis Meddyg Brynmawr ar hyn o bryd. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol bod y practis wedi cael ei reoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn dilyn ymadawiad y cyn Bartneriaid Meddygon Teulu yn 2015.

Rwy'n falch o gadarnhau, yn dilyn ymgyrch recriwtio gadarn, yn unol â’r broses Practis Gwag, fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i sicrhau partneriaeth Meddygon Teulu newydd i reoli a darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer Practis Meddygol Brynmawr. Mae’r contract wedi ei roi i Dr Allinson a Dr Ahmed a bydd yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2024.

Mae hyn yn newyddion cadarnhaol o ran sefydlogrwydd gwasanaethau meddygon teulu yn ardal Blaenau Gwent yn y dyfodol. Gallaf eich sicrhau **nad oes angen i chi wneud unrhyw beth,** byddwch yn parhau wedi cofrestru gyda Phractis Meddygol Brynmawr a byddwch yn cael eich trosglwyddo'n awtomatig i'r contractwr newydd. Golyga hyn y byddwch yn gallu parhau i gael mynediad at wasanaethau o'r safle ym Mrynmawr o’r 1af o Ebrill 2024.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r broses er mwyn sicrhau fod y gofal yn cael ei drosglwyddo’n esmwyth. Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau ynglŷn â’r canlyniad hwn, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241-246/293/258.

Yr eiddoch yn gywir,

Lloyd Hambridge
**Cyfarwyddwr Adrannol**
**Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Rhif Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Tel: 01495 241200